**ADRODDIAD I'R CABINET**
13 Chwefror 2018

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Gareth Thomas |
| **Pwnc**: | Dyfodol Darpariaeth addysg yn Nalgylch Y Berwyn |
| **Swyddog Cyswllt:** | Garem Jackson – Pennaeth Addysg |

---

**Y penderfyniad a geisir a phwrpas yr adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn, a sefydlu Campws Dysgu 3-19, ("Y Campws"), ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn nhref Y Bala. Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a'r ymateb i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2019 a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

---

**Barn yr aelodau lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

**1. Cyflwyniad**

1.1 Ar 27 Mehefin 2017, penderfynodd y Cabinet dynnu'r cynnig a gymeradwywyd ym mis Medi 2015, i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC Eglwys yng Nghymru) yn ei ôl, gan ofyn am adroddiad pellach i gyflwyno cynnig o'r newydd ar gyfer ymgynghoriad statudol fyddai'n cyfarch a chyd-fynd a gofynion yr Achos Busnes sydd eisoes wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, fe ddirprwywyd hawl i'r Aelod Cabinet Addysg gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru ar y cynnig newydd, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

1.2 Cynhaliwyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru rhwng 31 Awst a 28 Medi 2017. Fe ddaeth yn glir o'u hymateb i'r rhag-ymgynghoriad hwnnw mai'r disgyblion yw eu blaenoriaeth, a'u bod yn fodlon gweithio gyda'r ysgolion, y gymuned leol a'r Cyngor i sicrhau fod y prosiect yn mynd yn ei flaen.

1.3 Yn dilyn cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru, cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Cabinet ar 24 Hydref 2017, oedd yn manylu ar yr isod:

- sut y datblygwyd y cynnig newydd
- y cyfeiriad ar gyfer dalgylch
- effeithiau'r model arfaethedig ar y gymuned, cydraddoldeb ac iaith
- ystyriaethau wrth bennu categori cyfreithiol y cynnig, gan gynnwys yr ymateb i'r rhag-ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Awst – Medi 2017
- oblygiadau staffio, cyllidol, llithro'r dyddiad agor
- camau nesaf.

1.4 Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ar gynnwys yr adroddiad, ar 24 Hydref 2017, penderfynodd y Cabinet:

*"I gynnal ymgynghoriad statudol yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Y Berwyn ar y model a ffafrir, sef cynnig i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn yn nhref y Bala, a sefydlu Campws Dysgu 3-19, cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn weithredol o fis Medi 2019."*

**2. Cefndir – datblygu'r model ffafriedig**

2.1 Fel sy'n wybyddus, mae'r achos busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2015 wedi denu buddsoddiad o £10.27m i uwchraddio ac adeiladu estyniad ar adeilad presennol Ysgol y Berwyn, er mwyn datblygu Campws Dysgu 3-19 yn nhref Y Bala. Oherwydd hynny, wrth ddatblygu'r modelau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, roedd rhaid sicrhau fod y model ffafriedig newydd a gynigir i'r Cabinet yn cyfarch ac yn ateb gofynion llawn yr achos busnes, er mwyn sicrhau na fydd y newid yng nghyfeiriad y prosiect yn torri amodau a thelerau'r grant.

2.2 Fel rhan o'r broses o ddatblygu modelau, addaswyd y rhestr hir o opsiynau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn 2015. Noder, er bod yr achos dros newid yn glir, cafodd y model '*Gwneud Dim'* ei gynnwys at ddiben cymharu.


| | |
|---|---|
| **Model 1** | Gwneud dim. |
| **Model 2** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Dysgu (CD) ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CD a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, a'r ysgolion sydd wedi eu ffederaleiddio, sef Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. |
| **Model 3** | • Cau ysgolion y Berwyn a Bro Tegid a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Sefydlu Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol rhwng Ysgol Beuno Sant a'r CD<br>• Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent. |
| **Model 4** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CD dal gylchol aml-safle ar safleoedd presennol Ysgol y Berwyn, Ysgol Ffridd y Llyn, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol OM Edwards. |
| **Model 5** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CD. |
| **Model 6** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CD. |
| **Model 7** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r CD a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig. |

2.3 Datblygwyd dogfen i grynhoi prif fanteision ac anfanteision y modelau a restrir uchod. Gwerthuswyd yr opsiynau yn erbyn ffactorau yn y strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*, ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Berwyn a ffactorau perthnasol eraill. Gellir gweld y gwerthusiad opsiynau llawn yn **Atodiad 3.**

2.4 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar yr uchod i'r Cabinet ar 24 Hydref 2017, cefnogwyd yr argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar fodel 2, sef cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Dysgu (CD) ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala erbyn Medi 2019.

**3. Y Cynnig**

3.1 Fel rhan o'r cynnig, bydd Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant yn cau, a bydd y ddarpariaeth addysgol a ddarperir ganddynt yn cael ei ddarparu yn y Campws Dysgu 3-19. Bydd Ysgol y Berwyn hefyd yn cau, a bydd addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol uwchradd yn cael ei ddarparu yn y Campws Dysgu. Bydd y Campws Dysgu yn cael ei ddatblygu ar safle presennol Ysgol y Berwyn.




3.2 Golyga hyn:

- fod 3 ysgol yn cau (sef Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn), a
- bod Campws Dysgu 3-19, Cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol yn cael ei sefydlu ar un safle yng nghanol tref Y Bala, sef safle presennol Ysgol y Berwyn,
- bydd safleoedd ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn cau ac ni fyddai'r safleoedd hyn yn ail-agor.

3.3 Bydd y cynnig yn:

- Gwella safonau addysg, drwy alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol
- Cael effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Yn gwella cyflwr a safon stad ysgolion tref Y Bala yn sylweddol wrth fuddsoddi £10.27miliwn
- Yn gwella effeithlonrwydd stad ysgolion Cyngor Gwynedd
- Galluogi system uwch reoli modern newydd, fydd yn rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth, yn cynnig hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio ar draws y sectorau, ac yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd
- Yn lleihau llefydd gweigion y dalgylch
- Yn gwireddu oddeutu £85,000 o arbedion refeniw, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch
- Diogelu a chryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dalgylch
- Creu adnodd newydd fyddai ar gael at ddefnydd disgyblion ysgolion gwledig y dalgylch a'r gymuned leol y tu allan i oriau arferol ysgol

**4. Yr ymgynghoriad statudol**

4.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 22 Tachwedd 2017 ac 13:00 o'r gloch ar 10 Ionawr 2018.

4.2 Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, unai ar ffurf copi caled neu drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) .

4.3 Anfonwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori at y 6 ysgol yn y dalgylch, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr pob disgybl, aelod o staff ac aelodau corff llywodraethol yr ysgolion.

4.4 Cyhoeddwyd pecyn cefndirol yn ogystal, oedd yn cynnwys asesiadau effaith y cynnig ar yr iaith, y gymuned a chydraddoldeb. Yn ychwanegol i hynny fe ail gyhoeddwyd yr adroddiad ar asesiad angen am wahanol fathau o ysgolion (2015). Dosbarthwyd copïau caled o'r pecynnau cefndirol i'r 6 ysgol, llyfrgelloedd lleol â Siop Gwynedd Dolgellau, Pwllheli a Chaernarfon, fel eu bod ar gael i'w harchwilio gan unrhyw aelod o'r cyhoedd. Roedd y ddogfen hefyd ar gael i'w llawr lwytho oddi ar wefan y Cyngor.

4.5 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiynau "galw heibio" er mwyn trafod y cynnig gyda Llywodraethwyr, staff addysgu ac ategol, rheini/gwarchodwyr a'r cyhoedd. Fel rhan o'r sesiynau cyflwynwyd arddangosfa o'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghorol ac roedd swyddogion o adrannau perthnasol (e.e. addysg, eiddo, personél ayb) ar gael i egluro ac ymateb i ymholiadau. Roedd yna hefyd gyfle i rai oedd yn mynychu dderbyn copi caled o unrhyw ddogfennaeth berthnasol i'r cynnig ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mynychodd 26 o bobl y sesiynau galw heibio. Roedd yr amserlen ar gyfer y sesiynau fel a ganlyn:

| Grŵp | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Staff addysgu ac ategol | Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017 | 16:00 – 17:00 | Ysgol y Berwyn, Y Bala |
| Llywodraethwyr | Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017 | 17:15 – 18:15 | Ysgol y Berwyn, Y Bala |
| Rhieni/gwarchodwyr a'r cyhoedd | Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017 | 18:30 – 19:30 | Ysgol y Berwyn, Y Bala |

4.6 Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd a phlant uwchradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd yn ymweld â holl ysgolion y dalgylch i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Mae dadansoddiad yr hwylusydd o'r sesiynau hyn ar gael yn atodiad 2 yr adroddiad yma.

## 5. Y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

5.1 Pwrpas y rhan yma o'r adroddiad yw cyflwyno rhai o'r prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posib ymateb i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, fodd bynnag, ynghlwm, ceir copi o dabl sy'n cynnwys yr holl sylwadau yn ogystal ag ymateb y Cyngor. Ceir y wybodaeth yma i gyd yn atodiad 1 yr adroddiad yma.

5.2 Derbyniwyd 28 ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni unigol, yn ogystal â'r cyrff canlynol:

- Estyn
- NASUWT
- Esgobaeth Llanelwy
- Corff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel

5.3 Dyma dabl sy'n nodi'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd yn ôl eu cysylltiad gydag ysgol benodol:

| Ysgol Bro Tegid | Ysgol Beuno Sant | Ysgol y Berwyn | Ysgol Bro Tryweryn | Ysgol Ffridd y Llyn | Ysgol OM Edwards | Arall / Heb Nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | 3 | 16 | 1 | 1 | 3 | 8 |
| **Cyfanswm = 28** | | | | | | |

*3 ymateb heb nodi unrhyw ysgol gysylltiedig** 17 ymateb wedi nodi 2 ysgol gysylltiedig** 5 ymateb wedi nodi 2 ysgol gysylltiedig*

5.4 Fel nodwyd uchod, mae dadansoddiad Cyngor Gwynedd o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys hefo'r adroddiad hon. Gellir gweld copïau llawn/gwreiddiol o'r ymatebion ar [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) - mae'r wybodaeth bersonol ar rhai o'r ymatebion wedi eu duo er mwyd cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998.

5.5 Roedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gefnogol o'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 ar safle Ysgol y Berwyn, a chau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn. Teimlwyd y byddai'r cynnig yn gwella ansawdd addysg ac yn gwella amgylchedd ddysgu disgyblion tref Y Bala. Er bod ychydig o rwystredigaeth am y broses ad-drefnu yn hanesyddol yn y dalgylch, mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r model hwn.

5.6 Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn:

- Cefnogaeth i'r cynnig
- Y broses ymgynghori
- Y gwaith adeiladu
- Dyluniad ac adnoddau'r ysgol newydd
- Y cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19
- Materion cyllidol
- Materion staffio
- Cylch meithrin

5.7 <u>Cefnogaeth i'r cynnig</u>

5.7.1 Croesawyd y buddsoddiad, gyda'r mwyafrif yn datgan cefnogaeth i'r cynnig o Gampws Dysgu 3-19 ac adeilad newydd yn cyfrannu at wella ansawdd addysg.

5.7.2 Bydd y buddsoddiad o £10.27m yn gwella amgylchedd ddysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae amgylchedd ddysgu da yn hyrwyddo gwell addysg. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau yn Y Bala yn arwain at fwy na buddsoddiad yn yr amgylchedd ddysgu yn unig. Trwy ddod ag ysgolion tref Y Bala at ei gilydd fel un sefydliad oedran 3-19, gellir rhannu adnoddau ac arbenigedd staff yn well, gan arwain at welliant yn ansawdd addysg, a chymhwyso buddion y model 3-19 ar gyfer gwella a chysoni addysg yn nhref Y Bala.

5.7.3 Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol, mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r math hwn o gynnig rhoi cyfle i wella safonau addysgol ar draws y dalgylch. Byddai sefydlu un Campws Dysgu 3-19 yn y Bala yn galluogi hyblygrwydd ar draws yr holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau, yn dod yn arfer safonol. Dyma rai o'r posibiliadau:

- Gall athrawon uwchradd arbenigol addysgu eu pynciau i'r disgyblion cynradd hefyd e.e. cerddoriaeth
- Gall staff cynradd ac uwchradd y Campws ynghyd a staff yr ysgolion gwledig gwrdd i drafod a rhannu arfer da a chefnogi, annog a dysgu oddi wrth ei gilydd
- Byddai gwell parhad ym mhob agwedd ar y cwricwlwm oherwydd ei fod yn cael ei raglennu ar draws y dalgylch, gan sicrhau'r un profiadau a chyfleoedd i bob disgybl

5.7.4 Derbyniwyd ymateb gan Estyn oedd yn nodi bod y cynnig yn "debygol o gynnal safonau addysg yn yr ardal o leiaf, gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o sefydlu arweinyddiaeth newydd, sefydlog, gyda ffocws ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth."

5.8 <u>Y broses ymgynghori</u>

5.8.1 Cafwyd rhai sylwadau oedd yn nodi rhwystredigaeth fod y broses ad-drefnu wedi cymryd cyn-hired i'w chwblhau, a'u bod yn siomedig fod llithriad wedi bod yn yr amserlen.

5.8.2 Mewn ymateb i'r sylwadau hyn nodwyd mai newid yn null cyllido Llywodraeth Cymru a'r angen i flaenoriaethu gwaith mewn dalgylchoedd eraill oedd y prif reswm am yr oediad gwreiddiol. Yn dilyn hynny, ac yn dilyn cynnal proses statudol lawn i ymgynghori ar gynnig newydd, yn eu cyfarfod ar 15 Medi 2015, penderfynodd aelodau Cabinet y Cyngor i weithredu ar y cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19, Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref y Bala. Fel sy'n wybyddus, yn ddiweddarach, ar 27 Mehefin 2017, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd dynnu'n ôl y cynnig a gymeradwywyd ar 15 Medi 2015 ar y sail y byddai'n afresymol o anodd gweithredu'r cynnig oherwydd diffyg cefnogaeth y llywodraethwyr i'r cynnig presennol. Nodwyd fod ystyriaeth wedi ei roi i'r ymatebion a dderbyniwyd gan gyrff llywodraethu

ysgolion y dalgylch i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda hwy ym mis Mawrth 2017, yn ogystal â gohebiaeth gefnogol Esgobaeth Llanelwy wrth benderfynu sut i symud y prosiect yn ei flaen.

5.8.3 Nodwyd yn ogystal fod natur y broses ad-drefnu ysgolion yn golygu fod posib i gynlluniau gael eu haddasu wrth i'r broses fynd rhagddi. Yn ddibynnol ar benderfyniadau nesaf y Cabinet, mae'r Cyngor yn anelu at weithredu'r cynnig arfaethedig erbyn Medi 2019.

5.8.4 Nododd rhai bod ystadegau anghywir yn y ddogfen ymgynghorol. Yn anffodus, roedd gwall mewn un o'r tablau a gafodd ei gynnwys yn fersiwn Saesneg o'r ddogfen ymgynghori. Mae'r tabl cywir wedi ei gynnwys fel rhan o ymateb y cyngor (atodiad 1).

5.8.5 Mynegwyd siomedigaeth ynglŷn â'r wybodaeth a gyflwynwyd ynglŷn ag Ysgol Beuno Sant yn ogystal, o safbwynt ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol. Mewn ymateb i'r sylwad, nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi gweithredu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion wrth baratoi'r ddogfen ymgynghori. Mae'r Cod yn nodi fod rhaid i'r ddogfen ymgynghori ddarparu "gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni". Ceir hyd i'r wybodaeth yma ar dudalen 21 i 24 yn y ddogfen sy'n cyfeirio at ganlyniad yr arolwg a gynhaliwyd yn 2014. Fodd bynnag, ar dudalen 23, ceir paragraff sy'n nodi fod Ysgol Beuno Sant wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol yn 2015 yn dilyn ymweliad monitro ym Mehefin 2015. Mae'r ddogfen hefyd yn cyfeirio at Ysgol Beuno Sant fel ysgol sydd wedi ei chategoreiddio'n felyn, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, sef "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella".

5.9 Y gwaith adeiladu

5.9.1 Derbyniwyd ymatebion oedd yn datgan rhwystredigaeth ynglŷn ag effaith y gwaith adeiladu ar ddisgyblion a staff presennol Ysgol y Berwyn. Roedd rhai yn honni fod y gwaith adeiladu yn effeithio ar addysg y disgyblion ac eraill yn nodi pryderon am lwch ar y coridorau ac effaith sŵn y gwaith adeiladu. Yn ogystal, cafwyd rhai ymatebion yn nodi rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg cyfleusterau coginio a ffreutur tra bod y gwaith adeiladu'n mynd yn ei flaen.

5.9.2 Mewn ymateb i'r sylwadau yma nodwyd fod y Cyngor wedi ceisio strwythuro'r amserlen adeiladu i leihau unrhyw effaith bosibl ar staff a disgyblion yn nhermau gweithrediad dydd i ddydd yr ysgol uwchradd bresennol. Nodwyd fod adeiladu'r bloc cynradd newydd wedi ei raglennu'n gyntaf fel bod disgyblion a staff presennol yr ysgol uwchradd yn medru cael eu haddysgu yn y rhan newydd tra bod gweddill yr adeilad yn cael ei uwchraddio. Nodwyd yn ogystal fod canran y llefydd gweigion yn uchel yn Ysgol y Berwyn, ac fe gynlluniwyd yr amserlen adeiladu fel bod modd manteisio'n llawn o'r gofod gwag yn yr ysgol. Ychwanegwyd hefyd fod y Cyngor, ers cychwyn y gwaith adeiladu, wedi rhoi gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau fod y gwaith adeiladu yn cydymffurfio'n llawn â gofynion iechyd a diogelwch.

5.10 Dyluniad ac adnoddau'r ysgol newydd

5.10.1 Cafwyd sawl ymateb oedd yn nodi pryderon am agweddau o ddyluniad ac adnoddau arfaethedig yr ysgol newydd. Roedd y mwyafrif yn nodi pryderon am eu bod o dan yr argraff nad oes bwriad i uwchraddio'r labordai Gwyddoniaeth. Pwysleisiwyd gan rhai ymatebwyr nad yw'r labordai presennol yn addas ar gyfer darparu addysg yn yr unfed ganrif ar hugain, a'i fod yn hanfodol eu bod yn cael eu huwchraddio. Nodwyd yn ymateb Cyngor Gwynedd fod yr awdurdod, fel rhan o'r cynllun i fuddsoddi £10.27 miliwn i ddatblygu Campws Dysgu 3-19, yn bwriadu gosod 2 labordy gwyddoniaeth newydd yn yr ysgol, a hefyd, yn bwriadu buddsoddi yn y labordy Cemeg presennol trwy (i) uwchraddio'r gwasanaethau i'r meinciau presennol, (ii) gosod cwpwrdd mŵg newydd, a (iii) gosod 4 mainc newydd, dwy ochrog, sy'n addas ar gyfer gwneud gwaith grŵp. Ychwanegwyd hefyd fod y bedwerydd labordy am dderbyn uwchraddiad cyffredinol i'r cysylltiadau trydanol.

5.10.2 Yn ogystal, derbyniwyd ymatebion oedd yn nodi pryder nad yw dodrefnu a darparu adnoddau TG ar gyfer yr uwchradd yn rhan o gynllun y buddsoddiad. Fel rhan o'r ymateb, eglurwyd fod y Cyngor yn gweithredu

yn unol â Chanllawiau Achos Busnes y Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain ganrif (Llywodraeth Cymru), sy'n nodi nad yw dodrefn a ffitiadau newydd yn cael eu cynnwys fel rhan o wariant cyfalaf ar gyfer prosiectau ailwampio adeiladau, fel yn achos sector uwchradd y Campws Dysgu. Ychwanegwyd fod y canllawiau hyn hefyd yn nodi mai dim ond os yw'r adnoddau cyfrifiadurol newydd yn rhan o brosiect sy'n cynnwys adeilad o'r newydd y gellid eu cyllido fel rhan o'r buddsoddiad. O ganlyniad, ar y pwynt yma, rydym yn cydnabod nad oes cyllideb benodol wedi ei glustnodi ar gyfer uwchraddio'r adnoddau technoleg gwybodaeth nac ychwaith i ail ddodrefnu'r sector uwchradd. Er hynny, rhaid cofio mai penderfyniad i Bennaeth a chorff llywodraethol y Campws fydd sut fydd sut i ddyrannu a gwario cyllideb yr ysgol. Gallent felly wneud penderfyniad i glustnodi cyfran o'r dyraniad hwnnw ar gyfer uwchraddio rhai adnoddau penodol megis TG.

5.10.3 Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at y diffyg cydbwysedd rhwng y buddsoddiad yn adeilad y bloc cynradd a'r buddsoddiad i uwchraddio'r sector uwchradd. Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd fod y buddsoddiad o £10.27 miliwn yn golygu uwchraddiad sylweddol i adeilad presennol Ysgol y Berwyn. Nodwyd fod y gwelliannau'n cynnwys (i) creu ardaloedd dysgu addas drwy sicrhau ystafelloedd dysgu o faint addas a diweddaru'r cyflwr yn gyffredinol, (ii) Creu darpariaeth benodol ar gyfer y chweched dosbarth, yn cynnwys ystafell gyffredin ac ystafell astudio ar wahân, (iii) Gwariant ar y labordai, ac (iv) adnewyddu a gwella'r bloc technoleg. Pwysleisiwyd hefyd fod y rhestr yma'n ychwanegol i'r gwelliannau a gynllunnir ar gyfer y cyfleusterau cyffredin a'r cyfleusterau a rennir rhwng y cynradd a'r uwchradd megis y stiwdio ddawns a'r dderbynfa.

5.10.4 Cafwyd un ymateb oedd yn gofyn am ragor o fanylion ynglŷn â'r cynllun ar gyfer uwchraddio neuadd yr ysgol. Mewn ymateb i'r sylwad, nodwyd y bydd buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud ar gyfer uwchraddio'r neuadd, er mwyn darparu gofod ar gyfer gwasanaethau, amryw ddefnydd addysgol yn ogystal ag adnodd i gefnogi system sinema newydd. Nodwyd fod y cynllun arfaethedig yn cynnwys gosod (i) seddi y gellir eu tynnu'n ôl, (ii) bariau goleuadau newydd ar y llwyfan perfformio, (iii) seilwaith goleuo lefel isel newydd, (iv) seilwaith sain newydd, a (v) gwaith strwythurol o fewn y gofod i greu ystafell sain / taflunydd gyda storfa cadeiriau.

5.11 Y cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19

5.11.1 Cafwyd rhai sylwadau yn ymwneud a'r dewis o fodel ar gyfer yr ymgynghoriad, gydag un ymatebydd yn datgan ffafriaeth i model 1, sef model na fyddai'n golygu uno'r ysgolion o gwbl. Mewn ymateb i'r sylwad, nodwyd fod y Cyngor wedi ystyried ystod o wahanol fodelau cyn penderfynu cynnal ymgynghoriad statudol ar fodel 2 a bod datblygu Campws Dysgu yn fodel sy'n cynnig sawl mantais addysgol, gan gynnwys y cyfle i rannu arbenigeddau ar draws y sector gynradd a'r uwchradd. Nodwyd nad yw model 1, sef y 'status quo' yn cynnig yr un manteision. Yn ogystal, eglurwyd nad yw adeiladau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid nac Ysgol y Berwyn yn y cyflwr gorau nac yn addas ar gyfer dysgu yn yr unfed ganrif ar hugain.

5.11.2 Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn bryderus am y cyswllt rhwng y disgyblion cynradd a'r uwchradd, gan y byddai'r Campws yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-19. Eglurwyd yn ymateb y Cyngor, er mai un endid cyfreithiol (un ysgol) fydd y Campws Dysgu, mae dyluniad yr ysgol yn galluogi i segregeiddio'r disgyblion cynradd ac uwchradd. Ychwanegwyd y bydd mynediad a lle chwarae ar wahân ar gyfer y cynradd a'r uwchradd ac er bod bwriad i rannu adnoddau megis y gampfa, y neuadd a'r ffreutur, mae cynllun y safle yn galluogi'r disgyblion cynradd i wneud defnydd o'r cyfleusterau hyn heb gymysgu hefo disgyblion uwchradd.

5.12 Materion cyllidol

5.12.1 Un sylwad a gafwyd mewn perthynas â materion cyllidol. Nodwyd y gobaith y bydda arian a chyllid addas yn cael ei ddyrannu i'r ysgol newydd er mwyn galluogi staffio'r ysgol yn briodol. Os gweithredir y cynnig, bydd dyraniad y Campws yn cael ei seilio ar fformiwla dyrannu cyffredinol ysgolion Gwynedd. Caiff y fformiwla dyrannu ei seilio ar nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol. Mater i'r corff llywodraethu cysgodol a'r Pennaeth fydd pennu strwythur staffio sydd o fewn ffiniau'r dyraniad cyllidol.

5.13 Materion staffio

5.13.1 Cafwyd rhai sylwadau yn ymwneud â materion staffio. Mynegwyd pryder fod yr ad-drefnu yn arwain at ansicrwydd ac fe awgrymwyd gan un ymatebydd fod gan yr awdurdod wersi i'w dysgu yn dilyn y broses benodi a ddilynwyd yn nalgylch Dolgellau. Awgrymodd yr un ymatebydd na ddylai'r corff cysgodol hysbysebu unrhyw swydd yn allanol hyd nes bod y gweithlu presennol wedi cael y cyfle i dderbyn un o'r swyddi.

5.13.2 Mewn ymateb i'r sylwadau hyn nodwyd nad yw hi'n bosib rhoi arweiniad cadarn ynglŷn â'r swyddi yn yr ysgol newydd ar y pwynt yma o'r broses, gan na fydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud hyd ddiwedd y broses statudol h.y. yn dilyn cynnal cyfnod ymgynghori statudol a chyfnod gwrthwynebu.

5.13.3 Nodwyd mai penderfyniad i'r corff llywodraethu cysgodol fydd yr union strwythur staffio a hefyd y broses benodi fydd yn cael ei dilyn h.y. penodi'n fewnol neu'n allanol.

5.13.4 Yn ogystal, nodwyd fod ymgynghorwyr o'r adran Adnoddau Dynol ar gael i staff ysgolion y dalgylch trwy gydol y broses i drafod materion yn ymwneud â swyddi. Mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r galw tebygol am gefnogaeth gwasanaeth Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol y Cyngor gan ystyried bydd staff 2 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd angen cymorth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

5.14 Cylch Meithrin Bro Tegid

5.14.1 Mae Cylch Meithrin Bro Tegid yn defnyddio caban ar safle Ysgol Bro Tegid ar hyn o bryd. Pe byddai'r Campws 3-19 yn cael ei sefydlu, ac Ysgol Bro Tegid yn cau, yna bydd angen rhoi ystyriaeth i ddyfodol lleoliad y Cylch Meithrin erbyn Medi 2019, sef pan fydd y Campws Dysgu yn agor yn swyddogol.

5.14.2 Datganwyd pryder gan un ymatebydd nad yw'r Cyngor wedi ystyried lleoliad i gylch meithrin y Bala. Mae'n deg nodi fod angen trafod yr opsiynau posibl gyda chynrychiolwyr y Cylch Meithrin a'r Mudiad Ysgolion Meithrin dros y misoedd nesaf fel bod unrhyw ddarpariaeth amgen wedi ei gytuno mewn da bryd a chyn i'r Campws agor ym Medi 2019.

5.15 Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc

5.15.1 Fel nodwyd ym mharagraff 4.6 uchod, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori arbennig gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd a phlant uwchradd ysgolion y dalgylch. Trefnwyd bod hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc yn ymweld â'r ysgolion i gyd i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Mae dadansoddiad yr hwylusydd o'r sesiynau hyn ar gael yn atodiad 2 yr adroddiad yma.

5.15.2 Dyma'r prif bwyntiau gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc:

| **Cynradd** | **Uwchradd** |
|---|---|
| Bod y plant yn awyddus i fod efo'i ffrindiau ac i wneud ffrindiau newydd. | Pwysigrwydd gwarchod y Gymraeg. |
| Ofn colli ffrindiau. | Poeni am yr ystod oedran eang yn yr ysgol. |
| Awyddus i gael pob cyfle posib efo'r offer/ Adnoddau gorau posib. | Angen gwell offer ac adnoddau. |
| Bod pawb yn hapus, ond rhai yn ansicr o'r sefyllfa fod ysgolion yn cau. | Sicrhau fod yr awyrgylch ddysgu yn addas – e.e. bod yr ystafelloedd yn gynnes a dim sŵn yn y gwersi. |
| Yr angen i sicrhau fod pawb yn iawn e.e. nad oed bwlio yn digwydd (oherwydd yr ystod oedran). | Ehangu ar y cyfleoedd sydd ar gael. |
| Poeni fod plant rhwng 3 ac 19 oed dan yr un to. | |
| Beth fydd yn digwydd amser cinio ac amser chwarae. | |
| Mynd ar goll mewn ysgol fawr. | |

5.15.3 Nodir yr isod yng nghasgliad yr adroddiad:

*" Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynghori oedd bod plant yn fodlon addasu i sefyllfa newydd er eu bod yn poeni am fwlio, colli ffrindiau ac athrawon, ond yn gyffredinol roedd yr adborth yn bositif yn rhan fwyaf o'r ysgolion.."*

5.16 Arall

5.16.1 Roedd un sylwad yn gwneud cais am gydnabyddiaeth gyhoeddus o rôl yr Eglwys yng Nghymru wrth ddarparu addysg i ddisgyblion y dalgylch. Mewn ymateb i'r sylwad, nodwyd fod Cyngor Gwynedd a'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn a bod Ysgol Beuno Sant yn ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru) ac Ysgol y Berwyn, Ysgol Bro Tegid, Ysgol OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgolion Ffridd y Llyn yn ysgolion cymunedol. Ychwanegwyd fod y Cyngor wedi cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ers cychwyn yr ad-drefnu ysgolion yn y dalgylch.

6 **I Grynhoi**

6.1 Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol gadarn drwy'r ymgynghoriad i'r cynnig o sefydlu Campws Dysgu 3-19 yn y Bala. Argymhellir felly ryddhau rhybuddion statudol i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle presennol Ysgol y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2019 a bod y Campws yn agor ar 1 Medi 2019.

6.2 Mae'r argymhelliad yma yn dilyn ystyriaeth o ystod eang o fodelau posib. Crynhowyd y cynigion yma i restr hir o fodelau posib, a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd ffactorau'r strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*, ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Berwyn a ffactorau perthnasol eraill. Roedd y ffactorau yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- Ansawdd yr Addysg
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion
- Amgylchedd Dysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau
- Statws / Categori Ysgol
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Adnoddau Ariannol
- Ffactorau Daearyddol

Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn yma eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth ar 24 Hydref 2017, ac i'w weld yn atodiad 3.

6.3 Fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau yma, defnyddiwyd hefyd casgliadau asesiadau effaith Cymunedol , Ieithyddol a Chydraddoldeb. Mae'r asesiadau yma yn atodiad 4, a'r holl ddogfennaeth gefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

6.4 Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynigion. Mae'r asesiadau yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd a hawliau cyfartal. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa. Ystyrir felly fod canfyddiadau'r asesiadau yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad.

6.5 Cwblhawyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru rhwng Awst a Medi 2017, ac ystyriwyd eu sylwadau, ynghyd â'r gwerthusiad opsiynau a'r asesiadau effaith cyn penderfynu cymeradwyo cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

6.6 Yn dilyn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyrir fod y cynnig ymgynghorwyd arno dal i gynnig yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg yn nalgylch Y Berwyn. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn adran 5 ac atodiad 1 yr adroddiad yma, ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llwy.cymru/moderneiddioaddysg .

## 7 CAMAU NESAF

7.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn - bydd angen cyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

7.2 Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

7.3 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

7.4 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

| Camau'r Daith | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad statudol | 13 Chwefror 2018 |
| Cyhoeddi Rhybuddion Statudol a chyfle i ymgynghorai wrthwynebu | 21 Chwefror – 21 Mawrth |
| Penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor | Ebrill 2018 |
| Cychwyn sefydlu'r ysgol fel endid, e.e. sefydlu'r corff cysgodol, cychwyn y broses benodi | Ebrill – Mai 2018 |
| Agor Y Campws Dysgu | 1 Medi 2019 |

## 8 ARGYMHELLION

8.1 Argymhellir felly:

i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2019 a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws Cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Mae fy sylwadau blaenorol i'r Cabinet 27 Mehefin 2017 ac 24 Hydref 2017 yn parhau'n ddilys, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."

---

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol |
| **Atodiad 2** | Dadansoddiad yr ymgynghoriad plant a phobl ifanc gan hwylusydd arbenigol |
| **Atodiad 3** | Gwerthusiad opsiynau |
| **Atodiad 4** | Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion |